



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Seren Ffestiniog Cyf

**Uned 1 a 2 Llwyn Gell
Blaenau Ffestiniog
LL41 3NE**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

05/04/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Seren Ffestiniog Cyf

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Seren Ffestiniog Cyf
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	18 Mai 2021
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar osod y bobl wrth wraidd eu gofal, gan hyrwyddo annibyniaeth, iechyd a llesiant pob person. Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol eu profiadau o'r gwasanaeth yn fawr. Caiff cyfleoedd eu rhoi i unigolion adeiladu ar eu cryfderau a meithrin sgiliau newydd, sy'n gwella eu hyder ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu eu bod yn hapusach ac yn eu galluogi i fod yn rhan o'u cymuned.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith, ac yn anelu at ddarparu'r gofal a'r cymorth gorau posibl. Caiff hyfforddiant priodol ei ddarparu iddynt, ac maent yn cael arweiniad a chymorth cyson gan yr uwch-reolwyr.

Mae trefniadau arwain cadarn ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir o ansawdd uchel. Mae gan y rheolwr ddealltwriaeth glir o anghenion pob unigolyn ac mae'n goruchwyllo'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn effeithiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau monitro rheolaidd i wirio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r adborth a gesglir gan y bobl a'u perthnasau yn cael ei ddefnyddio i lywio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae systemau ar waith i lywio gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth a ddarperir.

Llesiant

Caiff gofal a chymorth eu darparu yn newis iaith y bobl. Caiff y Gymraeg ei chydabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl a'r gymuned leol. Gall y gweithwyr gofal, y rheolwr, a'r Unigolyn Cyfrifol sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn golygu gall y bobl rannu eu safbwyntiau yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae dogfennau gofal a pholisïau ar gael yn ddwyieithog. Gall y gweithwyr gofal gyfathrebu â'r bobl hefyd drwy ddefnyddio iaith arwyddion Makaton a 'PECS' (System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau).

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn oherwydd bod dewisiadau ar gael i'r bobl mewn perthynas â sut yr hoffent dreulio eu diwrnod. Caiff ymdrechion eu gwneud i ganfod diddordebau unigol y bobl a dod o hyd i amrywiaeth o weithgareddau iddynt gymryd rhan ynddynt. Mae'r rheolwr yn goruchwyllo'r cyfleoedd a ddarperir i'r bobl ac yn rhoi pwyslais ar barhau i ddod o hyd i brofiadau newydd i'r bobl roi cynnig arnynt. Gofynnir i'r bobl yn rheolaidd am eu safbwyntiau am y gwasanaeth, sy'n rhoi cyfle i drafod unrhyw newidiadau yr hoffent eu gwneud. Cânt eu hannog i chwarae rhan weithredol yn y gwelliannau hyn. Mae'r perthnasau yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwrando arnynt ac maent yn canmol y gwasanaeth a ddarperir yn fawr. Gwnaethant ddweud wrthym *"Excellent, fantastic support"*, ac *"It's a relief for me to know my (relative) gets the right support and care"*.

Caiff iechyd corfforol a llesiant emosiynol eu hybu. Gwelsom sawl enghraifft lle roedd iechyd y bobl wedi gwella'n sylweddol ers dechrau defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfarwydd â chyflyrau iechyd y bobl am fod cofnod ohonynt yn y dogfennau gofal, a chaiff cymorth ei ddarparu gyda meddyginiaeth. Darperir cymorth i gael gafael ar gyngor proffesiynol pan fo angen. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir. Mae gan y bobl gydberthnasau da ag eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Gwnaethant ddweud wrthym; *"best support I've ever had"* a gwnaethant gadarnhau y gallant godi unrhyw broblemau a allai fod ganddynt, a bod y gweithwyr yn gwrando arnynt.

Caiff y bobl eu hannog i ddysgu sgiliau newydd a datblygu i'w llawn botensial. Rhoddir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt ac i wella eu hannibyniaeth. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bob person. Dywedodd y bobl wrthym fod eu bywydau wedi gwella'n sylweddol ers dechrau defnyddio'r gwasanaeth. *"got me out of my shell"*. Roedd hyn yn ymwneud â chyflwyno profiadau gwaith, cyflogaeth â thâl, a'u rhwydweithiau cymdeithasol estynedig. Mae'r gweithwyr gofal yn ymrwymedig i gefnogi'r bobl i gael yr ansawdd bywyd gorau posibl, maent yn mwynhau eu gwaith ac yn falch o weithio yn y gwasanaeth.

Gofal a Chymorth

Gall y bobl fod yn sicr bod eu hanghenion gofal a chymorth yn hysbys cyn iddynt gael cynnig gwasanaeth. Caiff dogfennaeth gofal ei chasglu oddi wrth weithwyr proffesiynol sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn fel rhan o'r broses cyn derbyn. Mae cofnodion yn dangos bod y rheolwr hefyd yn siarad â'r bobl am eu disgwyliadau o'r gwasanaeth a'r canlyniadau y maent am eu cyflawni. Mae'r rheolwr yn ymgynghori â pherthnasau'r bobl hefyd pan fo hynny'n briodol. Mae hyn yn golygu bod y rheolwr yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth cyn cynnig gwasanaeth i'r bobl. Os bydd anghenion y bobl yn cynyddu i'r graddau na all y gwasanaeth eu diwallu mwyach, bydd y rheolwr yn rhoi gwybod i'r comisiynwyr er mwyn trefnu darpariaeth ofal arall ar eu cyfer.

Darperir gofal a chymorth o ansawdd uchel sy'n galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau dymunol ac i gyfoethogi eu profiadau bywyd. Mae'r cynlluniau personol yn dangos y caiff y bobl a'u cynrychiolwyr eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar y broses o gynllunio gofal. Caiff asesiadau risg eu defnyddio er mwyn gallu cymryd risgiau cadarnhaol a lle y bo'n bosibl, cânt eu llunio ar y cyd â'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym fod eu sgiliau, eu hyder a'u hannibyniaeth wedi gwella'n sylweddol. Gwelsom fod y bobl yn cael budd o'u profiadau gwaith, sy'n arwain at mwy o gyfleoedd gwaith â thâl. Mae'r cydgysylltydd gweithgareddau yn gyfrifol am ddod o hyd i wahanol ddigwyddiadau ac achlysuron cymdeithasol yn y gymuned, y gall y bobl gymryd rhan ynddynt os yr hoffent wneud hynny. Mae perthnasau yn disgrifio'r gwasanaeth fel un "*rhagorol*", ac yn dweud bod y gweithwyr gofal yn rhagori ar eu disgwyliadau.

Mae trefniadau ar waith i hybu iechyd corfforol ac emosiynol y bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cofnodi cyflyrau meddygol y bobl a sut y cânt eu rheoli. Rhoddir meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd, a darperir cymorth i fynd i apwyntiadau meddygol. Caiff pwysau'r bobl ei fonitro a chaiff gweithgareddau corfforol fel cerdded a nofio eu hannog. Mae'r cofnodion yn dangos bod cyswllt rheolaidd â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol y bobl i drafod unrhyw anghenion newydd. Gwelsom fod y gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth yn rhoi adborth cadarnhaol ar y gofal a'r cymorth a ddarperir yno.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae polisi diogelu ar gael sy'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau diogelu cenedlaethol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol a gallant ddatgan yn hyderus sut y dylent ymateb i unrhyw bryderon diogelu a allai fod ganddynt. Mae'r rheolwr yn atgyfeirio materion diogelu yn briodol at yr awdurdod lleol pan fo angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r trefniadau diogelu sydd ar waith yn dda. Mae'r darparwr yn blaenoriaethu diwylliant tryloyw mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â diogelwch y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben cyfredol ar gael sy'n rhoi'r gwybod i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gall y bobl wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo y gallant siarad â'r gweithwyr gofal a'r rheolwr i godi unrhyw faterion a allai fod ganddynt.

Mae systemau cadarn ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn rhedeg yn hwylus. Mae hyn yn sicrhau bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n gyson. Cynhelir archwiliadau a hapwiriadau yn rheolaidd er mwyn profi agweddau amrywiol ar y gwasanaeth. Mae dogfennau'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau dadansoddiad beirniadol o ddogfennau gofal gyda'r bwriad o godi safonau'n barhaus a sicrhau bod y bobl bob amser wrth wraidd eu gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau ffurfiol â lleoliadau lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu yn rheolaidd, ac yn ymgynghori â'r bobl a'r gweithwyr gofal. Caiff gweithwyr proffesiynol allanol eu defnyddio i gwblhau archwiliadau penodol sy'n ymwneud â phob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn, sy'n asesu boddhad y bobl â'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ffurfiol. Maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Cyflwynwyd fforymau i'r bobl a'u perthnasau er mwyn hwyluso syniadau am sut y gellir gwella'r gwasanaeth ymhellach. Mae'r wybodaeth a gesglir yn y digwyddiadau hyn a'r ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol yn llywio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel, maent yn cael hyfforddiant priodol a chymorth rhagorol. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses gyfweld ac yn cyfrannu at y trafodaethau. Mae gweithwyr gofal newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu yn y gwasanaeth yn ogystal â rhaglen sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn, ynghyd â gweithio shifftiau cysgodi a chwblhau hyfforddiant gorfodol, yn helpu i baratoi gweithwyr gofal i weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, bod eu gwaith yn cael ei ganmol yn rheolaidd, a'u bod yn cael cymorth gwych. Cynhelir sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd a chaiff arfarniadau blynyddol eu cwblhau. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n fawr gan yr Unigolyn Cyfrifol, y mae'n ei ddisgrifio fel “*amazing*”.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 13/05/2024